**Cofnodion Cyngor Cymuned Llangywer 7/5/25**

**Presennol:** Gwyn Roberts (Cadeirydd), Eleri Jones (is-Gadeirydd), D Clwyd Davies, Emyr Jones, Tyly Roberts, Geraint Roberts, W D Williams,

Cynghorydd Alan Jones Evans Lis Puw (Clerc)

1. **Croesawyd** pawb gan y Cadeirydd, Mr Gwyn Roberts. Nid oedd unrhyw Ymddiheuriadau.
2. **Cyhoedd:** Nid oedd neb o'r cyhoedd yn bresennol.
3. **Buddiant:** Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiant ar fater ar yr Agenda.
4. **Cofnodion:** Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion Mawrth 3ydd, 2025.
5. **Materion yn** codi o'r Cofnodion: Rhoddodd Clwyd Davies adroddiad manwl o gyfarfod gyda'r Heddlu lleol ar 23/4/25 . Trafodwyd trafferthion ymddygiad gwrth-cymdeithasol lleol ac addawodd y Cynghorydd Alan Jones Evans i dynnu sylw swyddogion Cyngor Gwynedd a'r asiantaeth tai at rai materion penodol. Roedd yn eglur unwaith eto fod diffyg adnoddau a staff yn yr ardaloedd gwledig. Mae ymgyrch ar y gweill i sicrhau bod cerbydau i'r safon cywir.
6. **Cyngor Gwynedd:** Derbyniwyd adroddiad y Cynghorydd Alan Jones Evans a nododd fod gwaith gwella a thrwsio wedi ei gyflawni i ffordd Glyn Bach. Bu'n pwyso ers blynyddoedd i waith cael ei wneud i wella ffordd Cymerig, ac mae'r mater yn rhan o raglen waith Adran y Priffyrdd eleni. Mae arwyddion llusgo-ffwrdd wedi eu harchebu a disgwylir y byddant wedi eu gosod i ategi'r Clirffordd. Bu'n trafod yr argymhelliad i rannu ardal Gwalia a Glyn gyda'r Swyddog Etholiadau, ac mae'r swyddog wedi derbyn yr angen i gynnal y cysylltiad traddodiadol a diwylliannol sy'n bodoli ar hyn o bryd.
7. **Materion lleol** y Cynghorwyr: Tynnwyd sylw'r Cynghorydd Alan Jones Evans at yr angen am arwydd a marciau ffordd lle mae lôn Glyn Bach yn ymuno a ffordd y Glyn er mwyn dynodi hawl un dros y llall. Tynnwyd sylw hefyd fod cangen ar un ochr i trip Rhosygwaliau ac ymyl y ffordd gyferbyn wedi culhau'r ffordd yn y fan hon. Bydd y Cynghorydd yn dwyn y materion hyn i sylw'r Adran berthnasol. Diolchwyd iddo am ei waith.
8. **Cwmni Pum Plwy Penllyn –** derbyniwyd Adroddiad y cynrychiolwyr a soniwyd fod y gwaith o ddiogelu ac uwchraddio Canolfan Bro Tegid wedi ei gwblhau, gydag agoriad swyddogol ar 15 o fis Mai. Mae Canolfan Henblas yn brysur iawn.
9. **Materion ariannol**
    a. Derbyniwyd Adroddiad yr Archwilydd Mewnol. Nodwyd y sylw fod angen adfer y cymal "Fidelity Guarantee" ar y polisi yswiriant, a bod camau wedi ei wneud i sicrhau hynny. Cymeradwywyd y Ffurflen Flynyddol i'w hanfon i'r Archwilydd Allanol ac fe'i harwyddwyd gan y Cadeirydd.
    b. Y Sefyllfa ariannol bresennol – derbyniwyd yr adroddiad banc

c. Derbyniadau – derbyniwyd hanner y praesept gan Gyngor Gwynedd.

d. Taliadau:

   i. **Yswiriant:** Ystyriwyd cynnig yswiriant Zurich (£130.69) a Came and Company (dros £700). Cytunwyd i ofyn i Zurich gynnwys "Cymal Ffyddlondeb" (£56 yn ychwanegol) ac i dalu'r anfoneb hwnnw.

   ii. **Torri gwair:** Cytunwyd i dalu am y toriad a wnaethpwyd ar ddiwedd mis Ebrill.

e. Gwiriwyd sefyllfa anfonebau Community Heartbeat: talwyd yr anfoneb a ddaeth i law ddiwedd mis Gorffennaf 2024 ar gyfer di-ffib Rhosygwaliau. Mae'r cwmni newydd anfon anfoneb hwyr am di-ffib Llangywer a chytunwyd i'w dalu ar ôl gwirio'r sefyllfa. Diolchwyd i Clwyd Davies a Tyly Roberts am ofalu am y di-ffibs. Mae ciosg Rhosygwaliau hefyd yn cael ei ddefnyddio fel llyfrgell bach.

10. **Cynllunio:** Cadarnhawyd cytundeb i gais i newid defnydd adeilad swyddfa'r maes gwersylla presennol i fyncws - Tŷ Isaf, Llwyneinion, Rhosygwaliau. LL23 7PP

11. **Gohebiaeth**

   i. **Arolwg Cymunedol:** Cytunwyd i'r Clerc anfon gwrthwynebiad y Cyngor at y Swyddog Etholiadol parthed ei gynnig i gyfuno wardiau Cwm y Glyn a Gwalia, y ddwy i fod yn rhan o ward Llandderfel Cyngor Gwynedd
   ii. **Polisi Gosod Lleol –** nodwyd derbyn gohebiaeth rhwng Cyfeillion Llŷn a Dafydd Gibbard, Cyngor Gwynedd
   iii. **Llyn Celyn:** nodwyd derbyn gwahoddiad i weld y gwaith ar 10.00am 13/5/25 (enwau ymlaen llaw). Mae'r gwaith yn tynnu at ei derfyn a mynegodd Emyr Jones y dymuniad i'w weld.
   iv. **Cais** i wrthwynebu'r bwriad o gynnal cystadleuaeth genweirio o geufadau ar Lyn Tegid 20/9/25: cydnabuwyd y pryder y gall rhywogaethau estron ddifwyno'r llyn wrth i nifer o fadau ymweld, ond mae'r pryder hwnnw yn bodoli'n feunyddiol gan nad oes reolaeth ar fadau sydd eisoes yn defnyddio'r llyn. Teimlwyd o leiaf y byddai'r achlysur hwn o dan reolaeth. Nodwyd pryder am breswylwyr dros dro yn y dref yn pysgota wrth bont Mwnwgl y Llyn.
   v. **Un Llais Cymru** Nodwyd derbyn gwahoddiad i anfon cynigion i'r Cyfarfod Blynyddol Cyffredinol 26/6/25.
   vi. **Un Llais Cymru** Nodwyd derbyn dyddiadau hyfforddiant.
   vii. **Un Llais Cymru** Nodwyd derbyn y Bwletin.
   viii. **Diolch:** Nodwyd derbyn diolch am nawdd gymunedol oddi wrth Ffederasiwn CFFI, yr Urdd, Llên y Llannau, Cantref
   ix. **Llwybr:** Mae Warden Cynorthwyol Llyn Tegid a'r Bala yn delio gyda mater o lwybr wedi ei rwystro yn ardal Llangywer.

12. Dyddiad y cyfarfod nesaf: 14 Gorffennaf 2025

Clerc: Lis Puw, Bedw Gwynion, Llanuwchllyn, Gwynedd LL23 7TW
07896964120 cyngor-llangywer@outlook.com